# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 3ydd o Ebrill 2025 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Festri Capel Pencaenewydd a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. **Yn bresennol** y Cynghorwyr (Cadeirydd)Aled Lloyd Evans, Anwen Jones, Sian Angharad Parry, Tegid Jones, Aled Davies, Delyth Parry, Dylan Thomas, a Miriam Williams a'r Clerc.

2. **Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Darren Morley, Rhys Tudur, Dewi Thomas, Euros Jones, Angela Williams, a Gareth O. Davies.

3. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 6fed o Fawrth 2025.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Mawrth 2025.**

4. **Datgan buddiant personol – neb.**

5. **Grŵp Cleifion Hwb Iechyd Eifionydd** – cais i'r Cyngor Cymuned bwyso ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ganfod safle ar gyfer meddygfa newydd ym Mhorthmadog. Mynegwyd pryder fod y broses yn cymryd cyhyd gan fod angen datrysiad cyn 2030.Eglurwyd hefyd fod cwynion gan rai am yr oedi cyn ateb y ffôn, a bod hynny oherwydd prinder staff ar hyn o bryd ac oedi o fewn y Bwrdd Iechyd o ran penodi. Mae'r Hwb hefyd yn y broses o gyflwyno system electronig i archebu prescripsiwn fydd i fod yn lleihau'r angen i ffonio'r feddygfa. **Clerc i anfon ebost yn cefnogi hyn.**

6. **Polisi Gosod Lleol Cymraeg 2025** – gwybodaeth gan Gydlynydd Perthyn yn Llŷn yn dweud ei bod wedi derbyn gwybodaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ran Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd. Mae'r ohebiaeth yn cyflwyno cyngor cyfreithiol newydd sydd yn nodi fod gan Gyngor Gwynedd a'r cymdeithasau tai hawl cyfreithiol i osod y Gymraeg yn faen prawf mewn Polisi Gosod Lleol. Byddai hyn drwy gytundeb rhwng y Cynghorau Lleol a'r asiantaethau tai, yn rhoi ystyriaeth briodol i ffyniant y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ar osod tai cymdeithasol. **Derbyn**.

7. **Ail gyfarfod Cynghorau Cymuned Llyn 19.03.2025**
Fe wnaeth y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans ac Anwen Jones fynychu'r cyfarfod.
Derbyniwyd y wybodaeth isod gan Mr Arfon Hughes, Cymunedoli.
Cafwyd sgwrs gan Llyr ap Rhisiart yn cyflwyno gwaith y mae Antur Aelhaearn yn ei wneud. Roedd hyn yn sail i'r drafodaeth, sef adnabod beth oedd barn unigolion a oedd yn y cyfarfod, a'r math o brosiectau gellid ystyried a chydweithio arnynt.

Dyma rai o'r syniadau a drafodwyd:

- Tai ar gyfer pobl ifanc a lleol.
- Newid cynllun Gwynedd i helpu pobl lleol.
- Holi ar bethau cyffredin i'r cynghorau e.e. holi'r Llywodraeth am osod tai.
- Defnyddio arian treth i adeiladu tai i bobl leol tebyg i Ymddiriedolaeth Tref Nefyn.
- Datblygu swyddi safonol.

- Gwasanaeth warden cŵn ar draws yr ardal.
- Trafnidiaeth gyhoeddus gan ehangu O Ddrws i Ddrws.
- Prosiect yn ymwneud a sbwriel - codi ymwybyddiaeth, casglu ac ati.
- Prosiect yn ymwneud a hen fynwentydd a rhai newydd.
- Sefydlu gwasanaeth cefnogaeth i bobl -e.e. rhai sydd wedi colli anwyliaid, grwpiau henoed a bwyd, harddu pentrefi, siopau cymunedol.
- Canfod arferion da fel sydd gan Antur Aelhaearn a datblygu prosiectau cyffelyb mewn cymunedau'r ardal.
- Creu cyfrif ar y cyd i gyflogi swyddogion gwneud ceisiadau grant, gweinyddu, ac ati.
- Cynorthwyo i dyfu mentrau presennol i gryfhau ac ehangu e.e. Menter y Plu.
- Cael mwy o lais cynghorau cymuned gyda cheisiadau cynllunio a materion gyda phwysigrwydd cadw a chryfhau'r iaith Gymraeg.

Yn dilyn holi beth oedd aelodau y cyfarfod yn ddymuno ei weld fel cam nesaf, cytunwyd i gysylltu yn ôl hefo'r cynghorau a gofynwyd am iddynt enwebu dau berson i'w cynrychioli i gael trafodaeth ar sut i gydweithio o hyn ymlaen.

Gofynwyd i bob cyngor drafod sut strwythur yr hoffent ei gefnogi i wireddu'r prosiectau uchod erbyn diwedd Ebrill 2025.
Y cynnig oedd bod cynghorau cymuned a thref sydd wedi ei cynnwys, yn dewis cam (i) neu (ii).

(i) **<u>Ymgorffori fel Cymdeithas gydweithredol gyfreithiol</u>** gyda chadeirydd, trysorydd ac ysgrifennydd gyda 2 gynrychiolydd o bob cyngor cymuned ar y bwrdd (os yn haws, gall cynghorau ddewis unigolyn o'u hardal os nad oes diddordeb gan gynhorwyr i ymwneud â'r fenter).

(ii) **<u>Cyfarfod fel cynrychiolwyr y cynghorau</u>** i drafod materion sydd wedi ei nodi heb ymgorffori fel cymdeithas gyfreithiol bob chwarter er mwyn 'lobio' ac i gydweithio ar brosiectau perthnasol.

**<u>Dewiswyd yr ail dewis, felly bydd y Clerc yn hysbysu Mr Arfon Hughes, Cymunedoli.</u>**

**<u>Materion gan Cyngor Gwynedd</u>**

**8. <u>Cyngor Gwynedd yn cynnal adolygiad cymunedol o dan adrannau 25 a 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.</u>**

Mae hyn yn golygu ystyried newidiadau posib i ffiniau rhai cymunedau penodol o fewn Gwynedd a wardiau pob cymuned. Mae'r adroddiad yn cynnwys cynigion drafft y Cyngor ar gyfer gwneud newidiadau, ynghyd â manylion yr adolygiad. Cynhelir cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar y cynigion drafft rhwng **28.03.25** a **23.05.25**, derbyniwyd y manylion gan Huw Elfed Roberts, Swyddog Gwasanaethau Etholiadol. Eglurodd hefyd mai'r pwrpas oedd drwy gael gwared o'r wardiau byddai'n haws i weinyddu ac ail lenwi seddi, ond os ydi cael wardiau yn gweithio yn iawn i'r gymuned nid oes problem parhau, drwy ei cadw fel ag y maent.
**<u>Cytunwyd mai ei cadw fyddai orau er mwyn parhau i gael trawsdoriad ar gyfer y gymuned i gyd.</u>**

9. **<u>Ceisiadau cynllunio sydd angen penderfyniad:-</u>**

**<u>a) Rhif Cais: C25/0195/41/DT Tŷ Croes, Llangybi, Pwllheli,</u>**
Dymchwel haulfan 'conservatory' unllawr gwydrog a chodi estyniad deulawr yn ei le, gyda 'balcony juliette', newid ffenestri presennol am rhai newydd, gosod drysau plygu 'bifold' newydd yn lle ffenestr gegin bresennol. **<u>Dim gwrthwynebiad.</u>**

**b) C25/0204/41/LL: Tir Ger Maes Llwyd, Llanystumdwy**.
Cynnig i godi 5 tŷ fforddiadwy, gan gynnwys gwaith i ffurfio ffordd fynediad fewnol, gwaith tirweddu caled a meddal a darpariaethau draenio cysylltiedig ar dir ger Maes Llwyd, Llanystumdwy. **Cefnogi.**

c) **C24/1081/41/DT: Cae Coch Ffordd Rhoslan, Rhoslan**,
Dymchwel adeilad allanol presennol a chodi porthdy pren fel llety atodol. **Gwrthwynebu.**

10. **Sedd wag yn Ward Llanarmon** – Clerc i wneud ymoliadau.

**Materion yn y gymuned**.

11. **Llanystumdwy**

a) **Pont Rhydycroesau** – derbyniwyd ymateb gan yr Adran Priffyrdd yn dweud fod y garreg sydd yn rhydd ar y pont yn fater i'r adran briffyrdd, a chaiff sylw yn fuan. Mae'r difrod i'r wal sydd wedi disgyn i'r briffordd yn wal terfyn preifat, gyda'r difrod o ganlyniad i coeden wnaeth syrthio. Cyfrifoldeb y tirfeiddiannwr yw hwn, ond bydd yr adran yn sicrhau fod y cerrig yn y ffordd yn amlwg i yrrwyr. Derbyniwyd gwybodaeth pellach yn dweud fod Arolygwr Ffyrdd wedi ailymweld â'r safle ac wedi ail osod arwyddion yno fel mesur dros dro, a bydd yn gwneud trefniadau i clirio'r cerrig maes o law.

**b)** **Amgeuddfa Lloyd George** – derbyniwyd gwybodaeth gan Megan Corcoran, Swyddog Datblygu Amgueddfeydd, yn dweud fod gwaith moderneiddio'r amgueddfa a'r arddangosfeydd wedi cael ei gynnal yn ystod y gaeaf. Byddent yn cynnal agoriad swyddogol mis Mehefin, ond yn agor i'r cyhoedd fel arfer ar 14.04.2025. **Maent yn cynnig mynediad am ddim i drigolion Llanystumdwy ac i sefydliadau yn y pentref i gael cip olwg cyn agor ar ddydd Gwener 11.04.2025 rhwng 12:00 a 2:00.**

**c)** **'Stand' llefrith** – ychydig dyddiau yn dilyn y cyfarfod diwethaf fe dynnwyd y 'stand' carreg i lawr i wneud mynedfa newydd i'r cae. Mae'r Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd a derbyniwyd gwybodaeth gan Dewi Hughes, Rheolwr Contractau GMC ar gyfer y safle. Dywedodd ei bod yn cysidro ail godi'r stand mewn lleoliad arall ar y safle yn agos i ble roedd yr un gwreiddiol, gan ail ddefnyddio'r cerrig gwreiddiol. **Clerc i anfon ebost yn cefnogi.**

12. **Rhoslan/Ynys**
13. **Chwilog**

14. **Pencaenewydd/Sardis**
**Tregarn, Pencaenewydd** – cwynion fod golwg o amgylch rhif 1, ac yn y lon o flaen y tai. Y Clerc wedi derbyn ymateb gan gwmni Adra yn cadarnhau ei bod yn delio hefo'r cwynion, ac yn anfon Warden Cymunedol yno ar frys.

15. **Llangybi**

16. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.03.2025. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

17. **Adroddiad Blynyddol** -gwaith y flwyddyn 2023 – 2024 – wedi cael ei awdurdodi a bydd y Clerc yn ei roi ar wefan y Cyngor.

18. **Prisiau llwybrau/cae chwarae** – mae hysbyseb wedi cael ei roi yn Y Ffynnon, y wefan a'r hysbysfyrddau hefo dyddiad cau 30.04.2024.

19. **Llochesi bws** – angen cysylltu efo cwmniau glanhau i gael prisiau cyn ein cyfarfod nesaf.

20. **Diffriblwyr Pencaenewydd, Llangybi a Sardis** – Clerc wedi cysylltu hefo Mr Ifor Davies, i weld pa fath o 'badiau' sydd ei angen ar ddiffribliwr Pencaenewydd, er mwyn trefnu i'w archebu. Bydd y Clerc yn cysylltu hefo Mr Tomos Hughes, Cydlynydd Cymuned SaLC Gogledd Cymru i gael manylion i archebu padiau ar gyfer ZOLL AED PLUS. Y Clerc wedyn yn cael cadarnhad gan y Cadeirydd i dalu'r anfoneb drwy BACS, cyn y cyfarfod nesaf, oherwydd nad oes gan y Cyngor gerdyn banc i wneud taliad. Bydd y padiau wedyn yn cael ei anfon yn syth at Mr Ifor Davies i'w gosod ym Mhencaenewydd.

21. **Hysbysfyrddau angen staen arnynt** – byddant yn cael ei trin yn ystod yr wythnosau nesaf.

22. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Gwagio bin baw cwn Chwilog 01.04.2024-31.03.2025 | **209.56** | **41.90** | **251.47** | **251.47** |
| Delwedd | Cynhaliaeth blynyddol | **467.12** | **93.42** | **560.54** | **560.54** |
| Criccieth Cleaning | Glanhau llochesi bws 6.10.2024 a 18.01.2025 | **408.80** | **81.76** | **490.56** | **490.56** |

23. Cyflog mis Mawrth 2025 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mawrth 2025<br>35 awr y mis x £17.79 = £622.65 | 622.65<br>Llai treth-<br>£124.60 =<br>**£498.05** | **498.05** | **498.05** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mawrth 2025<br>£623.00 x 20% = £124.60 | **£124.60** | **124.60** | **124.60** |
| Costau swyddfa Clerc Mawrth 2025 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr**

**24. Delwedd** – bil wedi cael ei dderbyn 01.04.2025, cytunwyd i'w dalu yn dilyn y cyfarfod gweler eitem rhif 22 uchod.

**25.** **Criccieth Cleaning** – bil wedi cael ei dderbyn 31.03.2025, cytunwyd i'w dalu yn dilyn y cyfarfod gweler eitem 22 uchod.

26. **Cwmni Fields in Trust** – cwmni yn gyfrifol am archwiliad blynyddol Cae Chwarae Llangybi. Egluro ei bod yn bwriadu anfon bil am y tro cyntaf eleni, sef £125.00 (TAW yn ychwanegol), am wneud yr archwiliad. Nid oeddent yn anfon bil cynt. Cytuno i gael y cwmni yma i barhau i wneud y gwaith oherwydd ei bod yn drylwyr iawn.

27. **Cais Cynllunio – C25/0252/41/DT – Plas, Llanarmon – estyniad unllawr cefn arfaethedig a porth newydd. Tynnu lolfa wydr UPVC a phorth presennol. Cefnogi**

Bydd y cyfarfod nesaf, a'r cyfarfod blynyddol ar y nos Iau **01.05.2025** yn Neuadd Llanystumdwy a drwy Zoom.